# Testament Newydd ein Arglwydd IESV CHRIST.

## W. ALUN MATHIAS yn cyfri'r copïau

YN RHIFYN diwethaf *Y Casglwr* (Mawrth 1990) cyhoeddwyd erthygl fer dan y teitl 'Geiriau'r bywyd yn Gymraeg' yn ymwneud â Thestament Newydd William Salesbury, 1567.

Cyfeirir yno at y copi o'r Testament a brynwyd gan y Parchedig Dafydd Wyn Wiliam yn arwerthiant Bonhams fis Tachwedd diwethaf, ac yna dywedir 'Gan gynnwys y copi yma ni wyddom am fwy na saith ar hugain o'r Testament yma.' Rhoddir ychydig o wybodaeth am y copïau hyn a diweddir trwy ddweud 'Buasai'n dda gennym glywed os gŵyr rhywun am ychwaneg o gopïau'.

Mae'n ddiamau y daw gwybodaeth am gryn nifer o gopïau ychwanegol o'r Testament mewn ymateb i'r apêl hon. Nodaf yn nes ymlaen y copïau y deuthum i yn bersonol i wybod amdanynt wrth ymchwilio i weithgarwch llenyddol William Salesbury.

Ond hoffwn yn gyntaf sôn yn fyr am rai o'r ymdrechion a wnaed cyn hyn i lunio rhestrau o'r copïau a oedd wedi goroesi o Destament Salesbury.

Cyn belled yn ôl a'r flwyddyn 1878 fe ymddangosodd nodyn i'r un perwyl yn union ag erthygl *Y Casglwr*. Yn rhifyn Tachwedd 27, 1878 o *Bye-Gones* cyhoeddwyd nodyn gan 'E.B.', sef Edward Breese, yr hynafiaethydd a'r casglwr llyfrau, yn rhestru deuddeg copi o Destament Salesbury ac yn gwahodd darllenwyr i roi gwybodaeth am unrhyw gopïau eraill y digwyddent wybod amdanynt.

Ymatebwyd i'w gais gan nifer o gyfranwyr, ac yn rhifyn Mawrth 19, 1879 yr oedd Breese mewn safle i ddatgan fod gwybodaeth ganddo erbyn hyn am chwe chopi ychwanegol.

Daeth un copi pellach i'r golwg erbyn rhifyn Ebrill 12. Cyfanswm y copïau yr oedd gwybodaeth amdanynt erbyn Ebrill 1879, felly, oedd pedwar ar bymtheg.

Fe'm temtir yn y fan yma i ddweud gair yn fyr am un o'r copïau a gynhwyswyd ymhlith y pedwar copi ar bymtheg, sef y copi a oedd y pryd hwnnw yn eiddo i'r casglwr llyfrau enwog E.R.G. Salisbury — rhif 13 yn rhestr Breese.

* * *

YN 1886 prynwyd casgliad gwerthfawr E.R.G. Salisbury o lyfrau ar Gymru a'r gororau gan Goleg Prifathrofaol Deheudir Cymru a Mynwy (fel y gelwid y sefydliad y pryd hwnnw), ond gwaetha'r modd nid oedd Testament Salesbury ymhlith y cyfrolau a ddaeth i Gaerdydd. Fel yr eglurir gan J. Hubert Morgan yn *Y Llenor* xvi (1937), i feddiant Llyfrgell John Rylands, Manceinion, yr aeth y copi hardd a fuasai ym meddiant E.R.G. Salisbury.

Yn y flwyddyn 1891 daeth dau lyfr o'r wasg yn adrodd hanes bywyd ac amserau'r Esgob William Morgan. Y naill oedd *Life and Times of Bishop William Morgan* gan William Hughes, a'r llall oedd *Bywyd ac Amserau yr Esgob Morgan* gan Charles Ashton.

Y mae'r ddau awdur fel ei gilydd yn rhestru'r holl gopïau y gwyddent amdanynt o Destament Salesbury a hefyd o Feibl yr Esgob Morgan, 1588, ac o Feibl yr Esgob Parry, 1620.

Ni ellir llai nag edmygu dygnwch Charles Ashton. Er mwyn llunio rhestrau a oedd mor gyflawn ag a oedd bosib fe fu'n gohebu ag oddeutu dau gant o lenorion, hynafiaethwyr a chasglwyr llyfrau yng Nghymru a Lloegr.

Un ar bymtheg yn unig o gopïau o Destament Salesbury a gofnodir gan Hughes, ond llwyddodd Ashton i gasglu gwybodaeth am naw ar hugain o gopïau.

Mewn troednodyn a welir ar dud. 324 yn ei lyfr cyfeiria at gopi ychwanegol yr oedd wedi dod i wybod amdano ar ôl paratoi'r rhestr wreiddiol. Dyna felly godi'r cyfanswm i ddeg ar hugain o gopïau.

* * *

GYDA threigl y blynyddoedd daethpwyd i wybod am fwy fyth o gopïau o Destament 1567. Yn dilyn y llyfryddiaeth feiblaidd werthfawr a baratowyd gan James Ifano Jones ac a gynhwyswyd gan John Ballinger yn *The Bible in Wales* (1906), rhoddir rhestr o berchenogion y gwahanol argraffiadau o'r cyfrolau a ddisgrifir yn y llyfryddiaeth.

Nid yw'r sawl a oedd yn gyfrifol am y rhestr (sef Ifano yn ôl pob tebyg) yn honni fod ei restr o berchenogion yn un gyflawn. Ebr ef: 'It does not pretend to be a complete census of owners of even the rare editions'.

Y syndod yw darganfod fod ei restr yn cynnwys cyfeiriadau at gynifer â chwech a deugain o gopïau o Destament Salesbury, a hyn, cofier, mewn dyddiau pan oedd llawer iawn ohonynt yn dal i fod ym meddiant casglwyr preifat.

Efallai y dylwn ddweud imi sylwi ar un enghraifft o gambriodoli yn y rhestr. Nodir fod copi o Destament Salesbury yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd. Ond nid oes copi erioed wedi bod ym meddiant y coleg hwnnw.

Megis y digwyddodd yn hanes copi E.R.G. Salisbury o Destament William Salesbury, aeth mwy a mwy o'r copïau a fuasai gynt yn eiddo perchenogion preifat i feddiant llyfrgelloedd sefydliadol.

Erbyn heddiw mae mwy o lawer o gopïau mewn llyfrgelloedd o'r fath nag sydd i'w cael mewn dwylo preifat. Isod rhof restr o'r llyfrgelloedd sy'n hysbys i mi lle y ceir copi neu gopïau o Destament 1567.

Un copi a gedwir ymhob un oni nodir yn wahanol. (Hwyrach y dylwn ddweud fod amryw o'r copïau hyn wedi eu cofnodi gennyf mewn erthygl ar weithiau William Salesbury a ymddangosodd yn *Journal of the Welsh Bibliography Society*, Gorffennaf 1952.)

**CYMRU**

*Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth — 13*

*Llyfrgell Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor — 6*

*Llyfrgell Sir De Morgannwg, Caerdydd — 2*

*Llyfrgell Sir Gorllewin Morgannwg, Abertawe*

*Llyfrgell Eglwys Gadeiriol Llanelwy*

*Amgueddfa Caerfyrddin, Abergwili*

**LLOEGR**

*Y Llyfrgell Brydeinig, Llundain*

*Llyfrgell Plas Lambeth, Llundain*

*Llyfrgell John Rylands, Manceinion*

*Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt — 4*

*Llyfrgell Coleg Clare, Caergrawnt*

*Llyfrgell Parker, Coleg Corff Crist, Caergrawnt*

*Llyfrgell Bodley, Rhydychen*

*Llyfrgell Coleg Iesu, Rhydychen — 2*

*Llyfrgell Eglwys Gadeiriol Henffordd*

*Llyfrgell Eglwys Gadeiriol Lincoln*

*Llyfrgell Eglwys Gadeiriol Wells*

**YR ALBAN**

*Llyfrgell Genedlaethol yr Alban, Caeredin*

**UNOL DALEITHIAU AMERICA**

*Llyfrgell Prifysgol Harvard, Cambridge, Mass*

*Llyfrgell H.E. Huntington, San Marino, Cal.*

*Llyfrgell Pierpont Morgan, Efrog Newydd*

*Llyfrgell Newberry, Chicago, Ill.*

*Llyfrgell Scheide, Prifysgol Princeton, N.J.*

*Llyfrgell Prifysgol Texas, Austin, Tex.*

* * *

AMHOSIBL dweud faint o gopïau o'r Testament Newydd gwreiddiol sydd ar gael a chadw heddiw mewn dwylo preifat. Fel y gwelwyd yn barod, mae un copi ym meddiant y Parchedig Dafydd Wyn Wiliam.

Mae gennyf innau gopi hefyd. Fe'i prynais 'nôl yn 1952 gan J.R. Morris, y llyfrwerthwr o Gaernarfon, am bum punt. Brysiaf i egluro mai copi anghyflawn ydyw: mae llawer o ddalennau ar goll o ddechrau ac o ddiwedd y gyfrol ac mae ambell ddalen o gorff y gwaith yn eisiau hefyd,.

Yr unig gopi arall y gwn i amdano sydd ar gael mewn casgliad preifat yw'r un a gedwir ym maenordy Merthyr Mawr. Mae'n gopi cyflawn ac wedi bod ym meddiant aelodau o deulu Merthyr Mawr ers sawl cenhedlaeth.

Cyfanrif y copïau a nodwyd gennyf uchod yw naw a deugain. Tybir yn gyffredin fod copïau cyflawn o'r Testament Newydd gwreiddiol yn eithriadol o brin. Yn wyneb hyn, credaf ei bod yn werth nodi fod o gwmpas ugain o'r copïau y cyfeiriwyd atynt uchod naill ai'n gopïau cyflawn neu yn ddiffygiol mewn manion yn unig.

Ar y llaw arall, fel y gellid disgwyl, mae rhai copïau mewn cyflwr pur druenus. Efallai mai'r gwaethaf ohonynt o ran ei gyflwr yw copi Llyfrgell Eglwys Gadeiriol Wells: dernynnau o'r testun gwreiddiol yn unig sydd ar gael heddiw.

Nodiadau

1. Copïau Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn ôl *Y Casglwr*, Mawrth 1990, deg copi a gedwir yn y Llyfrgell Genedlaethol. Ond nid yw'r ffigwr hwnnw yn cynnwys y ddau gopi sy'n perthyn i gasgliad y diweddar Athro G.J. Williams na'r copi a fu gynt yn eiddo i Goleg Coffa'r Annibynwyr.
2. Copïau Coleg Prifysgol Gogledd Cymru. Ymhlith y chwe chopi a gedwir yno y mae tri o gasgliad Beiblau Coleg Diwinyddol y Methodistiaid Calfinaidd yn y Bala ac un o Lyfrgell Eglwys Gadeiriol Bangor. Perthyn y ddau arall i gasgliad cyffredinol Coleg y Brifysgol.
3. Copïau Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt. Copïau adnau o eiddo Cymdeithas y Beibl yw dau o'r pedwar copi a gedwir yn y llyfrgell hawlfraint hon.

*Dymunaf ddiolch yn gynnes i swyddogion y gwahanol lyfrgelloedd am eu hynawsedd wrth ddelio â'm hymholiadau ac am eu parodrwydd di-ffael i roi manylion i mi am y copïau o'r Testament Newydd a gedwir dan eu gofal.*